Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **2 Mehefin 2010**

Teitl: Prifysgolion yn ymateb i anghenion lleol

Mae prifysgolion Cymru yn arwain y ffordd yn eu hymdrechion i wneud addysg uwch yn fwy hygyrch i ddysgwyr a chyflogwyr ar hyd a lled y wlad.

Mae sefydliadau addysg uwch (AU) wedi cael y dasg o ddarganfod anghenion a blaenoriaethau dysgu yn eu rhanbarthau er mwyn creu llwybrau mwy eglur o AU i'r ysgol, y gymuned, y gweithle ac addysg bellach (AB).

Drwy weithio gyda darparwyr dysgu eraill a chyflogwyr, bydd y prifysgolion yn creu gwell cyfleoedd ar gyfer symud ymlaen i AU drwy gydlynu rhaglenni yn y gymuned, y gweithle, addysg bellach ac addysg uwch. Byddant hefyd yn dod yn fwy ymatebol i anghenion cyflogwyr lleol drwy gynnig darpariaeth yn y gweithle sydd wedi'i theilwra'n well a thrwy hwyluso mynediad i'w harbenigedd.

Y nod yw creu cyfundrefn addysg uwch gydlynol yng Nghymru lle mae'r gwahanol ddarparwyr – gan weithio yn unol â'u gwahanol gryfderau a chenadaethau – yn cydweithio mewn ffyrdd trefnus a chraff i ddarparu'r addysg uwch orau bosibl y gellir ei phrynu â'r arian sydd ar gael.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Bydd yn gryn her i'r prifysgolion a'u partneriaid lunio strategaeth integredig erbyn diwedd Tachwedd ar gyfer pob un o dri rhanbarth Cymru yr ydym wedi'u diffinio. Ond ar ôl gwneud y gwaith cychwynnol hwn, dylai'r sefydliadau weld y manteision wrth i'w gynlluniau ddechrau dwyn ffrwyth. Bydd cyfleoedd ar gyfer rhannu gwasanaethau ac adnoddau a dileu unrhyw ddyblygu diangen.

“Pwrpas hyn oll yw cryfhau dimensiwn rhanbarthol y ddarpariaeth. Bydd yn ategu, nid disodli, cyfraniad cenedlaethol a rhyngwladol ehangach ein prifysgolion sydd wedi’i hen sefydlu.

“Y bwriad yw gwella’r rhagolygon ar gyfer darpar ddysgwyr, a fydd yn gallu cyrchu addysg uwch yn haws yn eu hardal leol ac ar eu telerau nhw eu hunain, a gwneud cymorth ac arbenigedd addysg uwch lleol yn fwy hygyrch i gyflogwyr.”

CCAUC - cysylltwch ag: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu
029 2068 2225 emma.raczka@hefcw.ac.uk

Nodiadau

Mae’r Arweiniad ar Gyflwyno Strategaethau Rhanbarthol ar gyfer Cynllunio a Chyflwyno Addysg Uwch ar gael yn www.hefcw.ac.uk o dan gyhoeddiadau / cylchlythyrau.

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC) sy’n gyfrifol am weinyddu’r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- yr addysg a ddarperir mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- yr ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae’r Cyngor hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â’i gyfrifoldebau cyllido, mae’r Cyngor yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru